YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor yr Hydref 2024 – Y Morlo Miss John

**Dewis Ardal Chwarae Rôl**

Meddygfa- **16**    Tŷ - **14**

## Bant â ni i gynllunio!

Pwrpas yr uned ddysgu hon yw i roi cyfle i'r dysgwyr i ddysgu am eu hunain ac i ystyried 'Beth sy'n gwneud fi yn fi?' Wrth ddechrau sylwi ar debygrwydd a gwahaniaethau e.e., golwg, hoffterau, gobeithiwn feithrin dealltwriaeth bod pawb yn wahanol ac yn arbennig, ac i ffurfio cydberthnasau cadarnhaol sydd wedi'u seilio ar barch at ei gilydd. Anelwn at ddatblygu dysgwyr sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol am eu hunain, adnabod a siarad am newidiadau yn eu gorffennol a dod i ddeall dilyniannau a phatrymau mewn gweithgareddau pob dydd. Ymdrechwn i ddatblygu dysgwyr chwilfrydig, ymholgar, sy'n gofyn cwestiynau'n naturiol er mwyn darganfod mwy.




Mae gen i geg i fwyta, siarad ac anadlu. *(I've got a mouth to eat, talk and breathe.)*

Noah

Mae pawb yn dechrau fel babi. *(Everyone starts as a baby.)*

Maisie

Mae eich ymennydd o hyd yn datblygu.

*(Your brain is always developing.)*

Ebba

Mae pawb yn wahanol. *(Everyone is different.)* June

*Mae genym ni trwyn i arolgi. (We have noses to smell things.)*

Saffir

Ar bob penblwydd rydym yn tyfu ac yn mynd yn henach. *(We grow and get older when we have a birthday.)* Eddy

Pan fyddwch yn mynd yn hyn mae angen i chi edrych ar ôl eich hun. *(When you get older you have to look after yourself.)* Merelani

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

CADW IAITH CADW GWLAD

# Tymor yr Hydref 2024 – Y Morlo Miss John

Uned ddysgu y tymor hwn:

## Dyma fi!

Dyma ein syniadau.



**Iechyd a Lles**

- Dechrau mynegi ein teimladau a datblygu strategaethau i reoli ein hemosiynau
- Dysgu am bwysigrwydd gofalu am ein cyrff e.e. hylendid personol, ymarfer corff
- Datblygu ein ffitrwydd
- Ymarfer a datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Edrych ar bortreadau enwog o arlunwyr Cymru e.e. portreadau Cedric Morris
- Ymarfer sgiliau arlunio/peintio wrth greu hunan-bortreadau
- Mwynhau canu caneuon cyfarwydd a rhai newydd
- Defnyddio ein synhwyrau i ymateb yn greadigol i gerddoriaeth
- Dechrau siarad am sut mae darn o gerddoriaeth yn gwneud i ni deimlo
- Archwilio rhythm gyda'n cyrff
- Printio gyda rhannau'r corff

**Y Dyniaethau**

- Siarad am ein hoff bethau/cas bethau
- Meddwl am bwy yw'r bobl pwysig yn ein bywydau a pham maent yn bwysig i ni e.e. teulu
- Siarad am y lleoedd sy'n bwysig i ni ac esbonio pam
- Adnabod digwyddiadau pwysig sydd wedi digwydd yn y gorffennol e.e. pen-blwyddi
- Trefnu digwyddiadau personol a dechrau deall cysyniad o'r dyfodol e.e. meddwl am beth hoffen ni wneud pan fyddwn yn fawr
- Dechrau datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddon ni
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Creu cornel chwarae rôl 'Meddygfa Bryn-y-Môr'
- Gwrando ar lawer o straeon a barddoniaeth sy'n ymwneud â'r uned ddysgu
- Dysgu geirfa, a chaneuon am y corff
- Gweithgareddau Tric a Chlic
- Mynegi ein hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol e.e. disgrifiadau, gwahoddiadau, cardiau

**Mathemateg a Rhifedd**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, darllen ysgrifennu a threfnu rhifau
- Datblygu ein sgiliau adio a thynnu i ffwrdd
- Dosbarthu gwrthrychau a chasglu data a'i gyflwyno
- Ymchwilio i fesurau, siâp, arian a phatrwm
- Datrys problemau syml yn ymarferol

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Dysgu am sut mae ein cyrff yn newid wrth i ni dyfu
- Cynnal ymchwiliadau i sut mae'r corff yn gweithio e.e. y synhwyrau
- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadol yn ddiogel
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
- Dylunio, creu a gwerthuso addurn Nadolig